OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1794 (Cy. 254)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pŵer i Drechu Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwyr Statudol) (Cymru) 2015

*Gwnaed* - - - - *13 Hydref 2015*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203 o Ddeddf Cynllunio 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Yn unol ag adran 203(9) o'r Ddeddf honno gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pŵer i Drechu Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwyr Statudol) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod wedi'r diwrnod y gwneir y Gorchymyn.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**).

### Pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill

**2.** Ym mharagraff 6(1A) o Atodlen 28 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980(**3**) ar ôl "in England", mewnosoder "or Wales".

**3.** Yn adran 19(1A) o Ddeddf Trefi Newydd 1981(**4**) hepgorer "in England".

**4.** Ym mharagraff 5(1A) o Atodlen 10 i Ddeddf Tai 1988(**5**)ar ôl "in England", mewnosoder "in Wales".

---

(**1**) 2008 p. 29 .
(**2**) 1990 p. 8.
(**3**) 1980 p. 65; mewnosodwyd is-baragraff 6(1A) o Atodlen 28 gan adran 194(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 a pharagraff 1 o Atodlen 9 iddi.
(**4**) 1981 p. 64; mewnosodwyd adran 19(1A) gan adran 194(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 a pharagraff 2 o Atodlen 9 iddi.
(**5**) 1988 p. 50; mewnosodwyd is-baragraff 5(1A) o Atodlen 10 gan adran 194(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 a pharagraff 3 o Atodlen 9 iddi.

**5.** Yn adran 237(1A) o Ddeddf 1990(**6**) hepgorer "in England".

### Ceisiadau am ganiatâd cynllunio gan ymgymerwyr statudol

**6.** Yn adran 266 o Ddeddf 1990(**7**) ar ôl is-adran (1A) mewnosoder—

> "(1B) Subsection (1) has effect in relation to an application or appeal relating to land in Wales only if the Welsh Ministers or the appropriate Minister have given a direction for it to have effect in relation to the application or appeal (and the direction has not been revoked)."

### Darpariaeth drosiannol

**7.** Nid yw'r diwygiad a wneir gan erthygl 6 yn gymwys ond mewn perthynas â cheisiadau ac apelau a wneir ar neu ar ôl y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

13 Hydref 2015

(**6**) 1990 p. 8; mewnosodwyd adran 237(1A) gan adran 194(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 a pharagraff 4 o Atodlen 9 iddi.
(**7**) 1990 p. 8; mewnosodwyd adran 266(1A) gan adran 195 o Ddeddf Cynllunio 2008.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a chyrff eraill drechu hawddfreintiau a hawliau eraill a fyddai fel arall yn cyfyngu ar eu defnydd o dir a gaffaelwyd neu a berchenogwyd at ddibenion cynllunio. Ni allant wneud hyn onid yw'r defnydd yn unol â chaniatâd cynllunio. Mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i adran 194(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008") ac Atodlen 9 iddi.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn datgymhwyso'r gofyniad i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol benderfynu ar y cyd ynghylch ceisiadau ac apelau cynllunio penodol pan fo'r cais wedi ei wneud gan ymgymerwr statudol. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru neu'r Gweinidog priodol gyfarwyddo bod y gofyniad am benderfyniadau ar y cyd yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â'r cais perthnasol neu'r apêl berthnasol. Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i adran 195 o Ddeddf 2008.

Mae erthygl 7 yn gwneud darpariaeth drosiannol. Mae'n darparu bod adran 266(1B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gymwys pan wneir cais neu apêl ar ôl i'r Gorchymyn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.